Atodiad C

# Papur Cefndir

Gwersylla a Charafanio ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Rheoli Effeithiau

**Mai 2024**

Diweddarwyd ym mis Tachwedd 2024

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynnwys


Cefndir a Phwrpas....3
1.0 Cyflwyniad .... 3
2.0 Y Parc Cenedlaethol.... 4
3.0 Polisi Cynllunio Gwersylla a Charafanau .... 4
4.0 Y Sefyllfa Bresennol .... 5
Tabl 1: Safleoedd Gwersylla a gafodd Ganiatâd Cynllunio/Tystysgrif Cyfreithlondeb rhwng 2015 a 2023 .... 7
5.0 Craffu a Rheoli gyda Cheisiadau Cynllunio .... 7
6.0 Datblygiad a Ganiateir – Dim angen Caniatâd Cynllunio .... 9
Tabl 2 Problemau a brofwyd .... 11
7.0 Camau Hyd Yma .... 12
Tabl 3: Camau gweithredu hyd yma i geisio rheoli datblygiad anawdurdodedig ... 12
8.0 Opsiynau ar gyfer Newid .... 15
Tabl 4: Opsiynau .... 16
9.0 Crynodeb a Chasgliadau .... 17
Tabl 5: Materion .... 18
Tabl 6: Opsiynau .... 20
Anecs 1: Ardaloedd â Chymeriad Tirwedd – Crynodeb o'r Cynhwysedd ar gyfer Datblygiad Gwersylla, Carafanau a Chalets Ychwanegol .... 23
Anecs 2: Polisi 41 y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig .... 25
Anecs 3: Manteision ac Anfanteision Safleoedd Gwersylla a Charafanau a sefydlwyd drwy hawliau datblygu a ganiateir .... 28

# Cefndir a Phwrpas

Paratowyd y papur hwn er mwyn darparu gwybodaeth gefndirol am ddatblygiadau gwersylla a charafanio yn y Parc Cenedlaethol. Roedd y papur yn dod gydag ymgynghoriad cychwynnol ar ddewis o opsiynau i reoli'r datblygiadau gwersylla a charafanio yn y Parc Cenedlaethol. Yr opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt oedd:

- Opsiwn 1: Dim newid i'r arfer presennol.
- Opsiwn 2: Cynyddu ymgysylltiad gyda gweithredwyr datblygiad safle a ganiateir (yr opsiwn dewisol ar gyfer Sefydliadau Esempt ochr yn ochr ag opsiwn 3).
- Opsiwn 3: Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn diddymu hawliau datblygu a ganiatawyd ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod (opsiwn dewisol).
- Opsiwn 4: Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn diddymu hawliau datblygu a ganiatawyd ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanio Sefydliadau Esempt.
- Opsiwn 5: Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn diddymu hawliau datblygu a ganiatawyd ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod safleoedd gwersylla a charafanio ag Ardystiad Sefydliadau Esempt.

Cafodd opsiwn 2 a 3 eu hadnabod fel opsiynau dewisol yr awdurdod. Ymgymerwyd â 'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu rhwng 29 Mai hyd Medi 2024. Mae'r papur cefndirol hwn wedi'i ddiweddaru ym mis Tachwedd 2024 er mwyn darparu'r sail tystiolaeth a'r rhesymeg dros:

- Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) nad yw'n dod i rym yn syth er mwyn tynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir i wersylla, ar gyfer carafannau a/neu gartrefi symudol am lai na 28 diwrnod, a
- Swyddogion i baratoi Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau sydd wedi'u heithrio.

# 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae manteision gwersylla a charafanio yn hysbys iawn, ac ers degawdau lawer mae wedi bod yn fath poblogaidd o wyliau ymysg y rheini sy'n ymweld â Sir Benfro. Sefydlwyd llawer o feysydd carafanau a gwersylla mawr y Sir yn y 1950au a'r 60au, gan ddenu miloedd o bobl yno ar eu gwyliau. Ochr yn ochr â'r meysydd sy'n cynnig lle i osod eich carafán neu'ch pabell eich hun, dechreuodd llawer o berchnogion meysydd brynu carafanau sefydlog i'w gosod yn ystod cyfnodau gwyliau. Datblygodd cyfleusterau o fewn y carafanau yn gyflym, gan gynnwys gwresogi tanwydd solet, dŵr poeth ac insiwleiddio, a oedd yn golygu bod modd eu defnyddio am gyfnod hwy o'r flwyddyn. Erbyn yr 1980au roedd gwelliannau pellach, fel dŵr o'r prif gyflenwad a thoiledau sy'n fflysio, a dyna oedd yn arferol erbyn hynny. Mae'r tu mewn moethus a'r systemau plymio a gwres canolog sydd ganddynt erbyn hyn wedi sicrhau eu hapêl hirhoedlog.

1.2 Mae carafanau teithiol hefyd yn rhywbeth rydym wedi hen arfer eu gweld yn Sir Benfro, ochr yn ochr â phebyll – maent ill dau wedi esblygu o ran ymdopi â’r tywydd anrhagweladwy a pha mor gyfforddus ydynt. Mae'r cynnydd ym maint y cerbydau teithio a'r newidiadau i drwyddedau gyrru wedi arwain at nifer ohonynt bellach yn cael eu gosod ar un safle am y tymor cyfan, gyda'r perchnogion yn ymweld fel y mynnant. Ochr yn ochr â hyn, mae mwy o bobl bellach yn berchen ar gerbydau gwersylla (*campervans*), sy’n rhoi mwy o ryddid i aros am y noson yn unrhyw le – ar safle neu beidio. Rhaid rhoi sylw i ddyfodiad glampio hefyd. Mae amrywiaeth eang o strwythurau bellach ar gael i'w llogi, gan roi lefel uchel o foethusrwydd i ymwelwyr wrth barhau i gynnig yr awyrgylch cadarnhaol a geir wrth wersylla yn yr awyr agored.

## 2.0 Y Parc Cenedlaethol

2.1 Parc Cenedlaethol yw’r dynodiad gwarchod tirwedd uchaf yn y DU, ac fe’i defnyddir i warchod y tirweddau mwyaf sensitif ac o’r ansawdd uchaf rhag datblygiadau annerbyniol. Dynodwyd Arfordir Penfro yn Barc Cenedlaethol ym 1952. Gan nad oedd unman yn y Parc fwy na 10 milltir o'r môr, cafodd y lefel uchaf o amddiffyniad tirwedd yn bennaf oherwydd ei arfordir ysblennydd. Mae’r ddeddfwriaeth a sefydlwyd i ddiogelu Parciau Cenedlaethol yn nodi dau ddiben statudol y rhoddir pwys mawr iddynt wrth wneud penderfyniadau. Y cyntaf o'r rhain yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth y Parc Cenedlaethol. Yr ail yw hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu rhinweddau arbennig. Gan y gall gwrthdaro godi wrth gyflawni’r ddau ddiben hyn, mae Egwyddor Sandford yn nodi, lle ceir gwrthdaro, mai gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a fydd yn drech.

2.2 Mae’r ddeddfwriaeth hefyd yn gosod dyletswydd i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, ar yr amod bod hynny’n gydnaws â’r dibenion.

2.3 Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, am benderfynu ar geisiadau cynllunio ac am orfodi datblygiadau anawdurdodedig. Gwneir hyn i gyd o fewn cyd-destun cyffredinol y ddau ddiben a'r ddyletswydd ategol.

## 3.0 Polisi Cynllunio Carafanau a Gwersylla

3.1 Yn sgil y cynnydd ym mhoblogrwydd gwersylla a charafanio yn y 1950au a’r 60au, bu cynnydd cyflym yn nifer y safleoedd mawr o amgylch arfordir gorllewin Cymru. Pan ffurfiwyd Cyngor Sir Dyfed yn y 1970au, cawsant y dasg o baratoi Cynllun Adeiledd ar gyfer y Sir. Dyma’r ddogfen polisi cynllunio gyntaf ar gyfer y Parc Cenedlaethol a llawer o ardaloedd eraill o amgylch yr arfordir. Roedd yn cynnwys polisïau ar gyfer y Sir gyfan a hefyd yn darparu cyd-destun ar gyfer Cynlluniau a baratowyd gan awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

3.2 Roedd y Cynllun Adeiledd yn cynnwys polisi i reoli datblygiad pellach unrhyw feysydd carafanau a gwersylla. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Cynllun Lleol cyntaf a baratowyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'i Gynllun Datblygu Unedol

olynol, a oedd yn cwmpasu Sir Benfro gyfan, yn cynnal yr un sefyllfa bolisi o gyfyngu ar unrhyw ddatblygiad carafanau a gwersylla pellach o fewn y Parc Cenedlaethol. Parhaodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol â'r un polisi yng Nghynllun Datblygu Lleol 2010. Ar y cyfan, y safbwynt polisi hwnnw a oedd ar waith ers dros dri degawd.

3.3 Ar ôl 2010, dechreuodd gwersylla a charafanio ddod yn fwy poblogaidd eto. Roedd llawer o'r safleoedd presennol yn ceisio newid o resi o bebyll a charafanau teithiol i garafanau sefydlog, ac roedd cynnydd nodedig yn nifer y bobl sy'n ymweld mewn cerbydau gwersylla a chartrefi modur. Dyma pryd dechreuodd y cyfnod glampio hefyd. Roedd pwysau'n cynyddu am ragor o feysydd carafanau a gwersylla. Fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, ac wrth baratoi ar gyfer ei ddisodli, comisiynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol astudiaeth yn 2015 i archwilio gallu'r Parc Cenedlaethol i amsugno datblygiadau carafanau a gwersylla pellach, heb niweidio'r dirwedd a'i rhinweddau arbennig.

3.4 Defnyddiwyd yr astudiaeth fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi polisïau'r ail Gynllun Datblygu Lleol (CDLl2), ac yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun yn 2020, fe'i cyhoeddwyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol[1]. Mae'r Canllawiau'n nodi 28 o ardaloedd sydd â chymeriad tirwedd ledled y Parc Cenedlaethol, pob un ohonynt yn wedi cyrraedd eu gapasiti, neu â chapasiti cyfyngedig iawn, i ymdopi â datblygiadau carafanau a gwersylla pellach heb niwed (gweler y tabl yn Atodiad 1 y papur hwn). Cynhaliwyd y gwaith o arolygu safleoedd â chaniatâd cynllunio a'r safleoedd y gwyddys eu bod yn gweithredu o dan Dystysgrifau Eithrio ar y pryd. Ni chafodd safleoedd 28 diwrnod eu cynnwys yn yr asesiad oherwydd eu natur gyfnewidiol, ac oherwydd nad oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol y fantais o wybod manylion eu lleoliad.

# 4.0 Y Sefyllfa Bresennol

4.1 Yn 2023 ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro roedd:

- 5,100 o leiniau ar gyfer carafanau sefydlog;
- 1,000 o leiniau ar gyfer carafanau teithiol (y gall faniau gwersylla a chartrefi modur eu defnyddio yn ogystal);
- 60 o leiniau i gerbydau gwersylla yn unig;
- Dros 400 o leiniau unedau (y gellir eu defnyddio ar gyfer pebyll, carafanau teithiol, cerbydau gwersylla a chartrefi modur)
- 900 o leiniau ar gyfer pebyll.

4.2 Mae'r holl safleoedd unigol uchod o fewn meysydd sydd â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a thrwydded safle a roddwyd gan Gyngor Sir Penfro.

4.3 Yn ogystal â'r safleoedd uchod, mae hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu i aelodau o sefydliadau hamdden (**safleoedd Tystysgrif Eithrio**) ac i berchnogion daliadau tir dros 5 erw (**safleoedd 28 diwrnod**) weithredu meysydd gwersylla heb fod angen caniatâd cynllunio na thrwydded safle. Amcangyfrifir bod y sefydliadau hamdden yn darparu 1000 o leiniau


---

[1] Canllawiau Cynllunio Atodol Carafanau a Gwersylla - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

ychwanegol yn y Parc Cenedlaethol. Nid yw nifer y lleiniau a gynigir ar safleoedd 28 diwrnod yn fesuradwy ond gwyddys bod y defnydd o'r dull hwn o sefydlu maes gwersylla wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf.

4.4 Mae'r map isod (Map 1) yn dangos dosbarthiad safleoedd gwersylla a charafanau gyda chaniatâd cynllunio a thystysgrifau eithrio ledled y Parc Cenedlaethol. Po dywyllaf yw'r pwyntiau, y mwyaf yw dwysedd y safleoedd. Heblaw am ardaloedd uchel Mynyddoedd y Preseli a mynyddoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastellmartin, mae dosbarthiad clir o safleoedd ledled y Parc Cenedlaethol.

**Map 1: Dosbarthiad Meysydd Carafanau a Gwersylla yn y Parc Cenedlaethol**




4.5 Yn ogystal â'r 7,500 o safleoedd unigol yn y Parc Cenedlaethol, sydd naill ai â chaniatâd cynllunio neu'n gweithredu o dan dystysgrif eithrio, mae nifer sylweddol o'r hyn a elwir bellach yn safleoedd gwersylla 'dros dro'. Mae'n ymddangos bod y safleoedd hyn yn defnyddio'r hawliau datblygu a ganiateir 28 diwrnod i agor meysydd gwersylla heb ganiatâd cynllunio, ond yn gweithredu am gyfnod llawer hwy o amser, a all fod hyd at 6 mis o'r flwyddyn (o'r Pasg hyd at ddiwedd mis Medi).

4.6 Mae meysydd carafanau a gwersylla anawdurdodedig yn elfen sylweddol o'r waith gorfodi a wneir gan yr Awdurdod. Ers 2018, mae dros 60 o ffeiliau ar wahân wedi'u hagor. Mae nifer gwirioneddol yr achosion o dorri rheolau cynllunio yn llawer uwch na hyn, ond nid oes gan yr Awdurdod ddigon o adnoddau i fynd ar drywydd pob achos o dorri rheolau yr adroddwyd amdanynt. Cyn y pandemig, roedd materion gwersylla a charafanio yn cyfrif am 11.35% o'r holl achosion gorfodi (2019). Gostyngodd y niferoedd yn ystod 2020 a 2021 oherwydd bod cyfnodau clo ar waith, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd cyfyngiadau cenedlaethol ar safleoedd yn gweithredu ac ar staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal ymweliadau â safleoedd. Yn 2022 roedd canran

yr achosion gorfodi a oedd yn ymwneud â charafanau a gwersylla yn 9.5%, ac yn 2023 roedd wedi codi i ychydig dros 12%.

4.7 Mewn ymateb i gamau gorfodi'r Parc Cenedlaethol yn erbyn achosion o dorri'r hawliau 28 diwrnod, mae'n gyffredin i dirfeddianwyr gyflwyno cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb. Caniateir hyn pan mae'r tirfeddiannwr yn gallu dangos ei fod wedi gweithredu am gyfnod o 10 mlynedd yn olynol, am fwy na'r cyfnod o 28 diwrnod, yn union cyn i'r cais gael ei gyflwyno i'r Awdurdod a heb i unrhyw gamau gorfodi gael eu cymryd yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gallu ystyried cymhwyso polisi cynllunio o dan yr amgylchiadau hyn. Rhwng 2015 a 2023 cafwyd 9 cais llwyddiannus am Dystysgrif Cyfreithlondeb gan ychwanegu 400 o leiniau unigol pellach yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn dangos bod ceisiadau am Dystysgrif Cyfreithlondeb wedi arwain at lawer mwy o leiniau unigol newydd na'r rhai sy'n deillio o geisiadau cynllunio ar gyfer meysydd newydd, neu newidiadau o fewn meysydd presennol.

### Tabl 1: Meysydd Gwersylla a gafodd Ganiatâd Cynllunio/Tystysgrif Cyfreithlondeb rhwng 2015 a 2023

| | **Meysydd newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt** | **Newidiadau o fewn meysydd presennol** | **Tystysgrif Cyfreithlondeb (meysydd newydd)** |
|---|---|---|---|
| **Lleiniau carafanau sefydlog** | 0 | 145 | 62 |
| **Lleiniau carafanau teithiol** | 0 | -223 | 62 |
| **Lleiniau cerbydau gwersylla** | 0 | 15 | 17 |
| **Lleiniau unedau** | 0 | 0 | 138 |
| **Lleiniau pebyll** | 0 | -28 | 121 |
| **Lleiniau Glampio** | 20 | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **-86** | **400** |

4.8 O'r lleiniau unigol a enillwyd trwy Dystysgrif Cyfreithlondeb, amcangyfrifir na fyddai 86% (345 o safleoedd) wedi cael eu hargymell i'w cymeradwyo pe baent yn cael eu beirniadu yn erbyn polisïau cynllunio'r Awdurdod ar wersylla a charafanio. Mae hyn yn dangos bod y polisïau a archwiliwyd ac y cafwyd tystiolaeth ohonynt yn CDLl2 yn cael eu tanseilio'n sylweddol, gan arwain at effeithiau ar dirwedd a seilwaith y Parc Cenedlaethol a allai fod yn niweidio.

## 5.0 Craffu a Rheoli gyda Cheisiadau Cynllunio

5.1 Pan gyflwynir ceisiadau cynllunio ar gyfer meysydd gwersylla a charafanau mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn craffu ar y cynnig yn erbyn polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2), Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod ar Wersylla a Charafanau (sy'n seiliedig ar astudiaeth capasiti tirwedd 2015), a pholisïau a chanllawiau perthnasol eraill.

5.2 Mae Polisi 41 o CDLl2 (gweler Atodiad 2 i'r ddogfen hon) yn ymwneud â darparu a lleoli meysydd carafanau a gwersylla newydd ac estyniadau neu

newidiadau i feysydd presennol. Caniateir meysydd newydd i ffwrdd o'r arfordir a’r Preseli, ac mewn lleoliadau nad ydynt yn rhyngweladwy. Mae’r polisi yn cyfeirio at yr angen i osgoi lleoliadau sensitif, i ddatblygiad gael ei gymhathu i’r dirwedd, na ddylai fod unrhyw effeithiau cronnol o’i ystyried ar y cyd â datblygiadau eraill, a’r angen i ailddefnyddio adeiladau a strwythurau presennol yn hytrach na darparu rhai newydd, lle bo’n bosibl.

5.3 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi lle mae unrhyw gapasiti yn y dirwedd ar gyfer datblygiad carafanau a gwersylla newydd, ac mae'n cynghori ar raddfa ac amseroedd gweithredu priodol ar gyfer safleoedd newydd. Mae hefyd yn darparu canllawiau i leihau effeithiau gweledol a niweidiol posibl safleoedd newydd.

5.2 Mae’r Awdurdod hefyd yn ceisio cyngor gan asiantaethau statudol gan gynnwys yr Awdurdod Priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a thîm Iechyd y Cyhoedd Cyngor Sir Benfro. Mae canlyniad y cais cynllunio yn seiliedig ar ystyriaeth drylwyr o'r polisïau a'r ymatebion a ddaeth i law.

5.3 Er y bydd gan bob cais elfennau penodol, y prif agweddau i'w hystyried gan yr Awdurdod yw:

- Effaith ar dirwedd
- Perygl llifogydd
- Effaith ar gymdogion
- Diogelwch priffyrdd
- Teithio iach a chynaliadwy
- Draenio a rheoli gwastraff
- Rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir
- Amseroedd gweithredu
- Ansawdd tir amaethyddol

5.4 Pan roddir caniatâd cynllunio, defnyddir amodau cynllunio i reoli:

- Y safle
- Nifer y lleiniau a’u math (carafan sefydlog, carafan deithiol, pabell, glampio ac ati)
- Cynllun y lleiniau a diogelu ardaloedd o sensitifrwydd
- Cyfnod gweithredu’r safle
- Y defnydd o lety ar y safle ar gyfer defnydd gwyliau

5.5 Unwaith y rhoddir caniatâd cynllunio i safle, rhaid ceisio trwydded safle gan Gyngor Sir Benfro. Bydd y drwydded yn sicrhau:

- Cyfleusterau digonol megis toiledau a chawodydd ar gyfer nifer a math y lleiniau
- Trefniadau addas ar gyfer gwaredu sbwriel (cytundeb gwastraff masnach)
- Trefniadau priodol ar gyfer cyflenwad dŵr, dŵr gwastraff a gwaredu carthion
- Darpariaeth addas ar gyfer gwaredu gwastraff cemegol

- Cydymffurfio â rheoliadau tân (y bylchau rhwng lleiniau a phwyntiau tân ac ati)
- Diogelwch priodol a chadw at ofynion trwyddedu ar gyfer cyfleusterau eraill ar y safle megis siopau, bwytai, pyllau nofio, tybiau twym ac ati.

# 6.0 Datblygiad a Ganiateir – Dim angen Caniatâd Cynllunio

6.1 Mae dwy ffordd o weithredu meysydd carafanau a gwersylla fel Datblygiad a Ganiateir.

**6.2 Safleoedd Tystysgrif Eithrio**
Gall sefydliadau sy'n bodloni gofynion penodol wneud cais i Lywodraeth Cymru am dystysgrifau eithrio[2] o dan Ddeddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960, a Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936. I fod yn gymwys, rhaid i sefydliadau fod â'r canlynol:

- Cyfansoddiad ffurfiol;
- Amcanion, gan gynnwys annog neu hyrwyddo gweithgaredd hamdden;
- Yr adnoddau i drefnu a goruchwylio gweithgareddau.

6.3 Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mae 321 o sefydliadau o'r fath yn meddu ar Dystysgrifau Eithrio. Mae tystysgrifau yn rhad ac am ddim ac yn ddilys am hyd at 5 mlynedd.

6.4 Mae 3 math o eithriad ar gyfer sefydliadau carafanau:

a) Paragraff 4 – caniatáu i dir gael ei ddefnyddio fel maes carafanau a feddiannir gan sefydliad sy'n meddu ar dystysgrif eithrio a roddwyd gan Lywodraeth Cymru am hyd at 28 diwrnod gan uchafswm o 3 carafán ar unrhyw un adeg;
b) Paragraff 5 – caniatáu i sefydliadau roi tystysgrifau (sy'n ddilys am flwyddyn) i berchnogion/deiliaid safleoedd yn datgan bod y tir wedi'i gymeradwyo ganddynt i'w ddefnyddio gan eu haelodau at ddibenion hamdden ar gyfer dim mwy na 5 carafán (neu gerbyd gwersylla/ cartref modur);
c) Paragraff 6 – caniatáu i sefydliadau drefnu cyfarfodydd ar gyfer eu haelodau yn unig, sy'n para hyd at 5 diwrnod (a elwir yn ralïau).

6.5 Mae eithriad pellach ar gyfer gwersylla mewn pebyll sy'n caniatáu i unrhyw faes gwersylla sy'n eiddo i aelodau'r sefydliad (neu a ddarperir neu a ddefnyddir ganddynt) gael ei ddefnyddio ar gyfer gwersylla mewn pebyll.

6.6 Mae canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y gallai sefydliadau ddymuno ceisio barn yr awdurdod cynllunio lleol cyn defnyddio safle, ac y dylent fod yn sensitif i bryderon trigolion lleol. Nid oes angen ymgynghori fel arall â darparwyr seilwaith na chyrff trwyddedu, er bod gan rai o'r sefydliadau eu safonau a'u gweithdrefnau eu hunain y mae angen i aelodau

[2] Trwydded wersylla (Cymru a Lloegr) - GOV.UK (www.gov.uk)

gydymffurfio â nhw drwy gydol eu gweithrediad. Fel rhan o'u gofynion Ardystio mae'r sefydliadau hefyd yn archwilio ac yn monitro'r safleoedd.

6.7 Mewn rhai achosion lle mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gwrthod caniatâd cynllunio, neu wedi nodi drwy’r broses ymholi cyn-ymgeisio bod cynnig ar gyfer maes gwersylla yn annhebygol o gael ei gefnogi, mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am aelodaeth i un o’r Sefydliadau Eithriedig, ac wedi llwyddo i agor safle yn yr un lleoliad drwy wneud hynny. Mewn achosion eraill, mae gwrthwynebiadau a godwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ynghylch sefydlu rhai safleoedd wedi cael eu diystyru gan Sefydliadau Eithriedig.

6.8 Mae tystysgrifau wedi'u dyfarnu i weithredwyr safleoedd sy'n caniatáu iddynt weithredu drwy'r flwyddyn neu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn o'u dewis. Ni chaniateir bron byth y lefel hon o ymreolaeth ar safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio.

6.9 **Safleoedd 28 diwrnod**

Nid yw safleoedd a sefydlwyd dan y rheol 28 diwrnod yn destun unrhyw fath o graffu. Er ei bod yn ofynnol i dirfeddianwyr sy’n sefydlu safleoedd yn Lloegr hysbysu’r awdurdod cynllunio cyn agor, nid yw hyn yn ofynnol yng Nghymru.

6.10 Caniateir y dull hwn o sefydlu maes gwersylla ar ddaliadau tir 5 erw neu fwy, ac mae’n caniatáu i’r tir gael ei ddefnyddio ar gyfer hyd at 3 carafán neu gartref modur neu gerbyd gwersylla, a nifer amhenodol o leiniau unigol ar gyfer pebyll. Ni chaniateir unrhyw strwythurau heblaw'r cyfleusterau dros dro mwyaf sylfaenol fel safbibell a phortalŵ heb ganiatâd cynllunio. Mae natur dros dro y safleoedd yn amlwg er mwyn caniatáu i dirfeddianwyr weithredu am gyfnod byr. Y gwir amdani, fodd bynnag, yw bod safleoedd yn gweithredu fel hyn am sawl mis ar y tro. Mae hyn yn amlwg yn nifer y ceisiadau Tystysgrif Cyfreithlondeb a ddaeth i law’r Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn ymateb i gamau gorfodi.

6.11 Dyma rai o’r prif gwynion a ddaeth i law am safleoedd anawdurdodedig:

- Sbwriel a defnyddio biniau cyhoeddus i waredu gwastraff
- Casetiau dŵr gwastraff yn cael eu gwagio mewn perthi
- Casetiau dŵr gwastraff yn cael eu gwagio mewn toiledau cyhoeddus (yn aml heb eu cysylltu â'r brif garthffos)
- Sŵn yn amharu ar eiddo cyfagos
- Tagfeydd a phroblemau traffig
- Tanau
- Mae rhai cymunedau wedi teimlo eu bod yn boddi mewn safleoedd, a’u bod heb gael cyfle i godi eu pryderon ar wahân i gwyno ar ôl i’r safleoedd gael eu sefydlu.


6.12 Nid yw safleoedd a sefydlir drwy hawliau datblygu a ganiateir yn destun ymgynghoriad cyhoeddus nac yn wynebu’r un prosesau craffu â’r rhai sydd angen caniatâd cynllunio. Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, mae cyfreithiau a rheoliadau i warchod yr amgylchedd naturiol wedi cynyddu ond mae safleoedd datblygu a ganiateir yn gweithredu y tu allan i’r rheoliadau i raddau helaeth. Mae pryderon arbennig yr awdurdodau yn ymwneud â’r canlynol:

## Tabl 2 Problemau a brofwyd

| | Mater | Rheswm a thystiolaeth |
|---|---|---|
| a. | Risg i'r dirwedd trwy effeithiau safle unigol a chronnus safleoedd | Mae capasiti cyfyngedig iawn yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer safleoedd ychwanegol heb wneud niwed i'r dirwedd. Mae hyn wedi'i ddangos trwy ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2, a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ategol ar Garafanau a Gwersylla (gweler y dyfyniad yn Atodiad 1). Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y safleoedd na'r lleiniau o fewn safleoedd sy'n deillio o hawliau datblygu a ganiateir. Mae nifer uchel o geisiadau Tystysgrif Cyfreithlondeb wedi derbyn caniatâd a fyddai'n groes i bolisïau cynllunio a fwriadwyd i warchod y Parc Cenedlaethol a'i Rhinweddau Arbennig. |
| b. | Rhoi gormod o bwysau ar seilwaith – yn enwedig cyflenwad dŵr, rheoli carthffosiaeth a phriffyrdd. | Mae materion yn ymwneud â'r cyflenwad dŵr wedi effeithio ar rannau o Sir Benfro, ac mae'r rhain wedi cael eu hamlygu'n gyffredinol drwy'r broses cais cynllunio gan Dŵr Cymru. Nid yw gweithredwyr safleoedd datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i'r un gofynion, ac mae posibilrwydd i'r cyflenwad ddirywio o ganlyniad. Yn aml ceir mynediad i safleoedd ar rwydwaith lonydd cul sy'n anaddas i gynnydd mawr mewn traffig, yn enwedig gan gerbydau mwy a charafanau. |
| c. | Potensial ar gyfer cynnydd sylweddol mewn ffosffadau. | Gallai'r potensial ar gyfer gollyngiadau dŵr heb eu rheoleiddio a nodir yn b arwain at gynnydd posibl mewn ffosffadau o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac afonol. Mae ceginau awyr agored, cawodydd a thoiledau unigol, a thybiau twym yn gyffredin ar lawer o safleoedd. |
| d. | Safleoedd gwersylla yn cael eu lleoli mewn ardaloedd anghysbell gan ganiatáu i fwy o bobl gael mynediad uniongyrchol i leoliadau sensitif a thiroedd anodd. | Posibilrwydd o ddifrod a mwy o erydiad i lwybrau troed. Mynedfeydd i draethau yn cael eu creu i lawr ymylon clogwyni serth, a allai fod yn beryglus. Adroddiadau cynyddol o aflonyddwch i fywyd gwyllt, e.e. morloi ar draethau.<br>Ymdeimlad o bellenigrwydd yn cael ei erydu'n raddol, yn ogystal ag elfennau sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau mwy sefydledig a rheoledig yn ymddangos. |
| e. | Cwynion gan weithredwyr safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio a thrwyddedau safle am ddiffyg craffu a monitro safleoedd datblygu a ganiateir. | Mae system dwy haen ar waith gydag amrywiad sylweddol yn y gofynion sydd eu hangen ar gyfer gweithrediad cyfreithlon a lefelau costau dilynol. Posibilrwydd y bydd effaith gronnus y doreth o safleoedd datblygu a ganiateir yn arwain at beidio â chefnogi ceisiadau cynllunio ar gyfer meysydd gwersylla newydd. |
| f. | Diffyg cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd neu ymgynghori ar safleoedd 28 diwrnod. | Dim cyfle i'r cyhoedd wneud sylwadau ar safleoedd cyn eu sefydlu, fel y byddai gyda cheisiadau cynllunio.<br>Gellir cymryd camau gorfodi ar ôl i'r 28 diwrnod ddod i ben, ond mae gweithdrefnau hir yn golygu bod safleoedd fel arfer wedi cau am y tymor cyn iddynt gael ei gwblhau. |

| | Mater | Rheswm a thystiolaeth |
|---|---|---|
| g. | Tanseilio'r system gynllunio yn y Parc Cenedlaethol. | Mae CDLl2 yr Awdurdod wedi mynd trwy brosesau ymgynghori ac archwilio helaeth a thrwyadl i ddangos ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae defnydd eang a chynyddol o hawliau datblygu a ganiateir yn tanseilio'r system gynllunio. |

**Map 2: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol ac Afonol Sir Benfro**




# 7.0 Camau a gymerwyd hyd yma

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r camau a gymerwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac eraill i geisio monitro meysydd carafanau a gwersylla a rheoli datblygiadau anawdurdodedig.

## Tabl 3: Camau i geisio rheoli datblygiadau anawdurdodedig

| | Gweithred | Beth mae wedi'i gyflawni? | A yw'n dal i ddigwydd? |
|---|---|---|---|
| 1. | Hyd at ddiwedd y 1990au bu'r Awdurdod yn gweithio gyda Thrwydded y Cyngor i fonitro safleoedd drwy ymweliadau safle (PCC) | Monitro safleoedd presennol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cynllunio a thrwyddedu, a monitro meddiannaeth. | Na. Daeth hyn i ben pan ddaeth ffotograffiaeth o'r awyr sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gael i'r Awdurdod. Hyd at ddiwedd y 1990au bu'r |

| | Gweithred | Beth mae wedi'i gyflawni? | A yw'n dal i ddigwydd? |
|---|---|---|---|
| | ac arolwg hedfan (PCNPA). | | Awdurdod yn gweithio gyda Thrwydded y Cyngor i fonitro safleoedd drwy ymweliadau safle (PCC) ac arolwg hedfan (PCNPA) drwy. Ffotograffiaeth awyr wedi'i diweddaru. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro wneud ymweliadau ar hap â safleoedd fel rhan o'r cynllun trwyddedu, ond cyfyngir ar eu gallu i wneud hyn gan adnoddau. |
| 2. | Fe ddefnyddiom ffotograffiaeth o'r awyr i gynnal y gwaith arolygu a wnaed gynt trwy'r arolwg hedfan. | Monitro safleoedd presennol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chaniatâd cynllunio a roddir, a monitro defnydd lleiniau. Mae hefyd yn tynnu sylw at rai datblygiadau anawdurdodedig, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â meysydd carafanau presennol. | Ydy. Mae ein data yn cael ei ddiweddaru pan fydd diweddariadau ffotograffiaeth o'r awyr yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. |
| 3. | Fe luniom set gynhwysfawr o ddata, gan gynnwys mapio pob maes carafanau a gwersylla yn y Parc Cenedlaethol. | Monitro meysydd presennol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r caniatâd cynllunio a ganiateir. Mae hefyd yn helpu i nodi achosion o ddatblygu anawdurdodedig yn gyflymach. | Ydy. Mae hyn yn cael ei gynnal a'i ddiweddaru'n rheolaidd. |
| 4 | Fe gysylltom â Chyngor Sir Benfro i sicrhau bod nifer y lleiniau a'u math ym mhob safle yn cyfrif ar gyfer y ddau awdurdod. Parhaodd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd am gyfnod. | Roedd yn darparu set ddata gynhwysfawr a chydlynol ac yn nodi anghysondebau y gellid mynd ar eu trywydd trwy orfodaeth. | Na. Bu newid personél yn PCC yn 2016 yn dilyn ad-drefnu, ac ar ôl hynny ailgyfeiriwyd eu hadnoddau at faterion eraill. |
| 5. | Yn 2017 fe wnaethom lunio a chyhoeddi taflen wybodaeth ar gyfer gweithredwyr meysydd carafanau a gwersylla. | Roedd yn darparu gwybodaeth hawdd ei darllen i berchnogion meysydd a'r rhai sy'n bwriadu gweithredu meysydd. | Ydy. Mae'r daflen ar gael o hyd ar ein gwefan[3], ond nid yw'n cael ei chyhoeddi'n eang. |
| 6. | Cyflogwyd swyddog gorfodi ychwanegol i ymweld â chymaint o | Darparu gwybodaeth hawdd ei darllen a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith | Na. Cafodd y swyddog ychwanegol ei ddefnyddio am gyfnod cyfyngedig, |

[3] Canllaw ar y Rheol 28 Diwrnod

| | Gweithred | Beth mae wedi'i gyflawni? | A yw'n dal i ddigwydd? |
|---|---|---|---|
| | feysydd carafanio a gwersylla â phosibl i godi ymwybyddiaeth o ‘beth i’w wneud a beth i beidio â’i wneud’ wrth redeg maes gwersylla o dan y gwahanol ddulliau. | monitro sy'n cael ei wneud gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. | dim ond pan ddaeth cyllid ychwanegol ar gael dros dro. |
| 7. | Yn 2015 comisiynwyd astudiaeth i lywio polisi cynllunio lleol yn y dyfodol ar wersylla a charafanio yn y Parc Cenedlaethol. | Darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi newid polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol o bolisi ataliaeth hirsefydlog i un sy'n nodi lle y gellir ystyried datblygiad cyfyngedig pellach. | Ydy. Mae'r polisi ar waith ac mae'r astudiaeth yn cael ei defnyddio fel Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| 8. | Yn 2021 cawsom gyfarfod â’r swyddog yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am roi'r Tystysgrifau Eithrio i sefydliadau i gyfathrebu ein pryderon am gamfanteisio ar y system yn eang. | Codi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu'r Awdurdod hwn gyda Llywodraeth Cymru. | Na. Ni chydnabuwyd y mater gan Swyddog Llywodraeth Cymru ac nid oeddent yn bwriadu cymryd unrhyw gamau. |
| 9. | Rydym wedi codi'r mater o wersylla heb awdurdod yn Fforwm Gwersylla a Charafanau Cymru gyfan, lle roedd Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o’r diwydiant carafanau a gwersylla hefyd yn bresennol. | Darparu gwybodaeth i'r sector ac eraill sy'n yn y cyfarfod, ac ennyn cefnogaeth i geisio rheolaeth bellach ar gyfer safleoedd a sefydlwyd o dan y rheol 28 diwrnod. | Ydy. Mae'r Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac mae'r mater yn cael ei drafod yn rheolaidd. |
| 10. | Rydym wedi mynychu cyfarfodydd lleol a drefnwyd gan Fforwm Carafanio a Gwersylla Cymru gyfan, a hefyd gan Gyngor Sir Benfro i gyflwyno gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion i'r gweithredwyr lleol. | Darparu gwybodaeth i'r sector yn lleol, ac ennyn cefnogaeth ar gyfer ceisio rheolaeth bellach ar Safleoedd Ardystiedig a safleoedd 28 diwrnod sy'n gweithredu y tu allan i'w hawliau a ganiateir. | Ydy. Rydym yn mynychu cyfarfodydd lle bynnag y bo modd er eu bod wedi bod yn llai aml ers cyfnod clo Covid. |
| 11. | Fe wnaethom gysylltu â Chyngor Sir Benfro, yr Heddlu, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac asiantaethau eraill i reoli gwersylla anawdurdodedig eang ac arwyddocaol yn nhymhorau 2020 a 2021. | Y nod yw diogelu'r dirwedd a'r amgylchedd rhag gwersylla heb awdurdod y tu allan i safleoedd a’r goblygiadau sy’n deillio o nifer uchel iawn o bobl yn ymweld â’r ardal. | Ydy. Cynhelir cyfarfodydd yn achlysurol i ymdrin â materion / lleoliadau penodol. |

| | Gweithred | Beth mae wedi'i gyflawni? | A yw'n dal i ddigwydd? |
|---|---|---|---|
| 12. | Lle mae cyfleoedd yn codi a lle bo hynny'n briodol, rydym wedi annog gweithredwyr safleoedd y Dystysgrif Eithrio i wneud cais am ganiatâd cynllunio. | Sicrhau bod safleoedd yn parhau'n briodol o ran lleoliad, maint ac ati. | Ydy. Parhau lle mae cyfleoedd yn codi. |
| 13. | Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch ymestyn 28 diwrnod i 56 diwrnod ar gyfer gwersylloedd dros dro, gan nodi'r rhesymau pam y byddem yn gwrthwynebu newid o'r fath. | Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r elfen hon o'r ymgynghoriad eto. | Ydy. Aros am ymateb/cam gweithredu gan Lywodraeth Cymru. |
| 14. | Cyswllt pellach â Llywodraeth Cymru ynghylch cyhoeddi Tystysgrifau Sefydliad Eithriedig. | Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ystyried ymhellach y materion a godwyd. | Ydy. Aros am ymateb/cam gweithredu gan Lywodraeth Cymru. |
| 15. | Cynnal gweithdai rhanddeiliaid gydag ymgymerwyr statudol a sefydliadau eithriedig i godi ymwybyddiaeth o'r materion a chychwyn camau pellach. | Cafwyd amrywiaeth o ymatebion gan gynnwys cymorth i ddileu hawliau datblygu a ganiateir; mwy o ymgysylltiad a dim eisiau newid y drefn bresennol. | Ydy. Yr ymarfer ymgynghori presennol hwn yw'r cam nesaf wrth gasglu barn ehangach ar y materion a'r camau gweithredu posibl sydd eu hangen, os o gwbl. |

## 8.0 Opsiynau ar gyfer Newid

8.1 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod bod gwersylla a charafanio yn ffyrdd bwysig i ymwelwyr fwynhau'r Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'r manteision y mae'n eu cynnig i iechyd a llesiant. Mae'r Awdurdod a sefydliadau eraill yn symud tuag at strategaeth dwristiaeth adfywiol lle mae ymwelwyr yn cael profiad ac effaith gadarnhaol, ac yn darparu budd net i'r amgylchedd naturiol.

8.2 Nid yw'r effeithiau negyddol sy'n cael eu creu gan amlhau meysydd gwersylla sy'n ddatblygiadau a ganiateir yn cydymffurfio â'r strategaeth adfywiol, ac mae ganddynt botensial sylweddol i achosi niwed i'r Parc Cenedlaethol. Felly, mae'r mater yn gofyn am ymateb gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae Atodiad 3 y papur hwn yn dangos tabl o fanteision ac anfanteision meysydd gwersylla sy'n ddatblygiadau a ganiateir trwy gasglu tystiolaeth yn fewnol ac yn allanol, a thrwy weithdai a chyfarfodydd.

8.3 Mae lleoliadau eraill â materion tebyg wedi mynd i'r afael â'r broblem trwy gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai cyfarwyddyd o'r fath yn dileu hawliau datblygu a ganiateir. Ni fyddai'n atal meysydd gwersylla newydd rhag cael eu sefydlu, ond byddai angen caniatâd cynllunio i wneud hynny.

8.4 **Profiad o lefydd eraill**

- Cernyw – Mae rhannau helaeth o arfordir Cernyw wedi bod yn destun Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i reoli gwersylla a charafanio ers y 1970au. Mae Cernyw yn debyg iawn i Sir Benfro o ran ei arfordir hir a dramatig iawn, ac mae'n boblogaidd gydag ymwelwyr. Mae'r ardaloedd wedi'u dynodi'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- Y Gŵyr – Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi bod ar waith ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyfan y Gŵyr ers 1979. Pan gafodd ei gyflwyno, derbyniodd Swyddog Cymru ar y pryd fod pwysau o wersylla trwm a chamfanteisio ar hawliau datblygu a ganiateir. Bu cefnogaeth a beirniadaeth i'r Cyfarwyddyd ers ei gyflwyno, ond nid yw ei weithrediad wedi cael ei herio’n sylweddol nac yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau cynllunio ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Yn fwy diweddar, maent wedi bod yn defnyddio Astudiaeth Tirwedd a Sensitifrwydd a Chapasiti y Gŵyr (sy’n debyg i Ganllawiau Cynllunio Atodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol) i helpu i arwain datblygiadau newydd i'r lleoliadau lleiaf sensitif. Maent wedi canfod bod hyn yn ddefnyddiol wrth reoli effeithiau ar y dirwedd. Nid ydynt o'r farn y byddent wedi gallu cyflawni hyn heb i Gyfarwyddyd Erthygl 4 fod ar waith.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol y New Forest – Cyflwynodd yr Awdurdod Gyfarwyddyd Erthygl 4 ym mis Medi 2022, mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar y Parc Cenedlaethol oherwydd gwersyllwyr. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan y cyhoedd ar gyfer rheolaethau ychwanegol yn dilyn ymarfer ymgynghori. Mae'r Cyfarwyddyd yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod. Yn dilyn newid deddfwriaeth yn Lloegr a gynyddodd nifer y dyddiau y gellid caniatáu i safleoedd weithredu o dan hawliau datblygu a ganiateir, roedd angen diwygio Cyfarwyddyd Erthygl 4, a gwnaed hynny ym mis Medi 2023. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol y New Forest yn darparu canllawiau ychwanegol i weithredwyr safleoedd gan gynnwys rheoli'r tir yn y tymor hir, a chydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd.

8.5 Mae sawl opsiwn ar gael i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro er mwyn rheoli meysydd carafanau a gwersylla newydd, a oedd yn destun ymgynghoriad gyda’r cyhoedd, rhanddeiliaid a gwersylloedd sy’n gweithredu gyda chaniatâd cynllunio a sefydliadau esempt.

## Tabl 4: Opsiynau

| | **Opsiwn** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| i. | Parhau i orfodi yn erbyn datblygiadau anawdurdodedig y rhoddir gwybod i'r Awdurdod amdanynt. | Byddai hyn yn golygu aros yr un fath, sydd heb fod yn ddigon effeithiol hyd yma. |
| ii. | Ymgysylltu mwy â gweithredwyr safleoedd datblygu a ganiateir. | Gall hyn fod yn effeithiol ar gyfer safleoedd Sefydliadau Eithriedig gan fod y Sefydliadau wedi'u |

| | Opsiwn | Canlyniad |
|---|---|---|
| | | sefydlu ac yn hysbys i'r Awdurdod. Byddai'n anodd ei gyflawni ar gyfer safleoedd 28 diwrnod gan nad yw'n ofynnol i weithredwyr hysbysu'r Awdurdod, ac felly nid ydynt yn hysbys i raddau helaeth oni bai eu bod yn cael eu riportio fel achos o dorri rheolau gorfodi. |
| iii. | Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod. | Byddai hyn yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ystyried ceisiadau ar gyfer y math hwn o safle yn briodol, yn ogystal â rhoi cyfle i ymgynghori â'r cyhoedd a chysylltu â rheoleiddwyr eraill. Byddai hefyd yn lleihau'r potensial i gamfanteisio ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd sy'n gweithredu am fwy na 28 diwrnod. |
| iv. | Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla sy'n Sefydliadau Eithriedig. | Byddai hyn yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ystyried ceisiadau ar gyfer safleoedd sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd o dan dystysgrif. Yr effaith debygol fyddai bod gweithredwyr yn rhoi'r gorau i fod yn aelodau o sefydliadau o'r fath, ac felly'n lleihau unrhyw effeithiau cadarnhaol a fyddai'n dellio o ymgysylltiad cynyddol ar gyfer arfer da gyda'r Sefydliadau Eithriedig. |
| v. | Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla 28 diwrnod a Sefydliadau Eithriedig. | Canlyniad hyn fyddai cyfuniad o eitemau iii ac iv uchod. |

# 9.0 Crynodeb a Chasgliadau

9.1 Mae'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn gyrchfan boblogaidd ers amser maith i ymwelwyr sy'n dod am wyliau gwersylla a charafanau. Gan gydnabod manteision gwersylla i'r rhai sy'n dymuno mwynhau'r Parc Cenedlaethol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am amddiffyn y dirwedd warchodedig – o fewn cylch gwaith y ddau ddiben a'r ddyletswydd a neilltuwyd gan ddeddfwriaeth. Mae ganddo ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2006, a elwir yn ddyletswydd Adran 6, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer eu swyddogaethau gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

9.2 Yn dilyn sawl degawd o bolisïau cynllunio cyfyngol sy'n cyfyngu ar ddatblygiad meysydd carafanau a gwersylla newydd, comisiynodd Awdurdod y Parc

Cenedlaethol astudiaeth yn 2015 i archwilio pa gapasiti sydd i ddarparu ar gyfer mwy o safleoedd heb beri niwed i'r dirwedd. Y casgliad oedd mai dim ond ychydig iawn o gapasiti sydd mewn rhai lleoliadau, tra mae eraill eisoes wedi cyrraedd eu capasiti. Defnyddiwyd yr astudiaeth i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2) presennol, ac yna cafodd ei mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun.

9.3 Defnyddir CDLl2 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer cynigion gwersylla a charafanau. Fodd bynnag, mae hawliau datblygu a ganiateir hefyd yn caniatáu i feysydd newydd gael eu creu heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae yna fathau o hawliau datblygu a ganiateir:

- Safleoedd sefydliadau eithriedig
- Safleoedd 28 diwrnod

9.4 Mae'r math hwn o ddatblygiad wedi cyfrannu'n fawr at nifer y meysydd carafanau a gwersylla yn y Parc Cenedlaethol, ond heb ymgynghoriad cyhoeddus na'r un lefel o graffu ag y mae safleoedd sy'n mynd drwy'r broses ymgeisio cynllunio yn ei hwynebu. Yn ogystal, mae camfanteisio ar hawliau datblygu a ganiateir 28 diwrnod yn eang wedi arwain at roi defnydd cyfreithlon i safleoedd mewn lleoliadau na fyddai'n cydymffurfio â pholisi cynllunio. Mae hyn yn tanseilio gallu'r Awdurdod i gynllunio'n iawn ar gyfer yr ardal, a hefyd yn gwrthdaro â strategaeth twristiaeth adfywiol yr Awdurdod.

9.5 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi defnyddio gwahanol ffyrdd o geisio rheoli'r sefyllfa a chyflawni ei gyfrifoldeb i ddiogelu'r Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig. Llywddiant cyfyngedig yn unig mae'r rhain wedi'i gael ac yn awr cynigir yr angen am ddefnyddio Cyfarwydd Erthygl 4(1) nad yw'n dod i rym yn seth er mwyn tynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir i wersylla a /neu garafannau am lai na 28 diwrnod. Mae rhannau eraill o Gymru a Lloegr sydd â nodweddion a materion tebyg i'r rhai a wynebir yn y Parc Cenedlaethol eisoes yn defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i reoli'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwersylla a charafanio.

9.6 Mae sawl opsiwn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu ystyried mewn perthynas â faint o reolaeth ychwanegol sydd ei angen i ddatrys y materion a nodir yn llawn yn y papur hwn. Maent wedi'u crynhoi isod:

## Tabl 5: Materion

| | **Mater** | **Safleoedd Sefydliadau Eithriedig** | **Safleoedd 28 Diwrnod** |
|---|---|---|---|
| 1. | Atebolrwydd gweithredwyr safleoedd | Mae'n rhaid iddo fod yn sefydliad sefydledig, gyda gofynion penodol ar waith, y mae Llywodraeth Cymru wedi craffu arnynt. Mae graddau'r gwaith craffu ar weithredwyr safleoedd unigol yn amrywio rhwng ystod eang o Sefydliadau Eithriedig. | Dim atebolrwydd. |

| | Mater | Safleoedd Sefydliadau Eithriedig | Safleoedd 28 Diwrnod |
|---|---|---|---|
| 2. | Diffyg craffu ar gynigion cyn sefydlu'r safle | Mae gan rai sefydliadau eu safonau a'u gweithdrefnau eu hunain ar waith, ac fe'u hanogir i ymgynghori ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a rheoleiddwyr eraill gan Lywodraeth Cymru. | Nid oes angen ymgynghori â'r awdurdod cynllunio nac unrhyw gyrff eraill. |
| 3. | Monitro gweithrediadau pan fydd y safle ar agor | Mae'n ofynnol i sefydliadau arolygu safleoedd bob blwyddyn. Mae rhai yn arolygu'n amlach. Mae amrywiaeth rhwng sefydliadau o ran y safonau a'r gwaith monitro a gynhelir. | Dim angen. |
| 4. | Ymgynghori â chymdogion | Nid yw'n ofynnol ond dylai sefydliadau geisio tarfu cyn lleied â phosibl ar gymdogion. | Dim angen. |
| 5. | Camddefnyddio hawliau Datblygu a Ganiateir | Mae’r materion y mae’r Parc Cenedlaethol yn ymdrin â hwy yn cynnwys: Strwythurau anawdurdodedig, Gweithredu ar gyfer mwy o leiniau na’r nifer a ganiateir ar gyfer carafanau; Gweithredu am fwy o amser na’r cyfnod a ganiateir. | Mae'r materion y mae'r Parc Cenedlaethol yn ymdrin â nhw yn cynnwys: Effaith ar y dirwedd; Strwythurau anawdurdodedig; Gweithredu am gyfnod sylweddol hirach na'r cyfnod a ganiateir; Niwsans i gymdogion a'r gymuned ehangach; Tagfeydd traffig. |

9.7 Mae sawl opsiwn ar gael i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i reoli meysydd carafanau a gwersylla newydd. Ar ôl pwyso a mesur yr opsiynau sydd ar gael yn ofalus, yr opsiwn sy’n cael ei ffafrio gan yr Awdurdod yw cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla 28 diwrnod. Ochr yn ochr â hyn mae Swyddogion yr Awdurdod o'r farn y gallai cyflwyno Cod Ymddygiad Gwirfoddol / Protocol Gweithio ar gyfer sefydliadau eithriedig wella safonau ac arferion gwaith effeithiol. Mae'r ddau opsiwn sy’n cael eu ffafrio yn cael eu hamlygu mewn print trwm yn y tabl. Mae'r papur hwn a'r cyd-destun ehangach ynghylch y materion yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn.

## Tabl 6: Opsiynau sy'n cael eu ffafrio mewn print bras [4]

| | Opsiwn | Canlyniad |
|---|---|---|
| i. | Parhau i orfodi yn erbyn datblygiad anawdurdodedig y rhoddwyd gwybod amdano i'r Awdurdod. | Byddai hyn yn golygu aros yr un fath, sydd heb fod yn ddigon effeithiol hyd yma. |
| **ii.** | **Ymgysylltu mwy â gweithredwyr safleoedd datblygu a ganiateir. (Opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig, ynghyd ag Opsiwn iii)** | **Gall hyn fod yn effeithiol ar gyfer safleoedd Sefydliadau Eithriedig gan fod y Sefydliadau wedi'u sefydlu ac yn hysbys i'r Awdurdod. Byddai'n anodd ei gyflawni ar gyfer safleoedd 28 diwrnod gan nad yw'n ofynnol i weithredwyr hysbysu'r Awdurdod, ac felly nid ydynt yn hysbys i raddau helaeth oni bai eu bod yn cael eu riportio fel achos o dorri rheolau gorfodi.** |
| **iii.** | **Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod. (Opsiwn sy'n cael ei ffafrio)** | **Byddai hyn yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ystyried ceisiadau ar gyfer y math hwn o safle yn briodol, yn ogystal â rhoi cyfle i ymgynghori â'r cyhoedd a chysylltu â rheoleiddwyr eraill. Byddai hefyd yn lleihau'r potensial i gamfanteisio ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd sy'n gweithredu am fwy na 28 diwrnod.** |
| iv. | Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla sy'n Sefydliadau Eithriedig. | Byddai hyn yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ystyried ceisiadau ar gyfer safleoedd sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd o dan dystysgrif. Yr effaith debygol fyddai bod gweithredwyr yn rhoi'r gorau i fod yn aelodau o sefydliadau o'r fath, ac felly'n lleihau unrhyw effeithiau cadarnhaol a fyddai'n dellio o ymgysylltiad cynyddol ar gyfer arfer da gyda'r Sefydliadau Eithriedig. |
| v. | Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla 28 diwrnod a Sefydliadau Eithriedig. | Canlyniad hyn fyddai cyfuniad o eitemau iii ac iv uchod. |

9.10 Ymgymerwyd ag ymgynghoriad ac ymgysylltiad cyhoeddus dros gyfnod o dros dri mis o 29 Mai i 20 Medi. O ran ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd hysbysiad dros e-bost neu lythyr ei anfon at gysylltiadau ar y rhestr bostio Cynllun Datblygu

[4] Ailadrodd Tabl 4, uchod

Lleol, asiantaethau cynllunio a rhai y cysylltwyd â hwy eisoes drwy gyfarfodydd a gweithdai, ynghyd â Chynghorwyr yn y Parc Cenedlaethol, rhanddeiliaid allweddol, gwersylloedd y mae'n hysbys eu bod yn gweithredu o dan sefydliadau esempt, gwersylloedd sy'n gweithredu gyda chaniatâd cynllunio a sefydliadau esempt. Roedd yr ymgynghoriad ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod ac ymgymerwyd â chyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad gyda datganiad i'r wasg, ac fe'i hyrwyddwyd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

9.11 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddodd y swyddogion gyflwyniad a chynnal digwyddiad ymgysylltu ar-lein ar gyfer unrhyw aelodau o'r cyhoedd neu randdeiliaid eu mynychu a digwyddiad ymgysylltu ar wahân ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Bu i'r swyddogion hefyd godi ymwybyddiaeth gan ymgysylltu gyda'r cyhoedd mewn sioeau lleol yn Aberdaugleddau, Nyfer, Penfro a Sioe'r Sir. Yn ogystal fe wnaeth y swyddogion godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad yng nghyfarfod fforwm chwarterol Asiantaethau Cynllunio Penfro. Gwahoddwyd ymatebwyr i gwblhau holiadur ar-lein neu gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig drwy lythyr neu e-bost.

9.12 Derbyniwyd cyfanswm o 120 o ymatebion i'r holiadur ar-lein. Derbyniwyd sylwadau dros e-bost hefyd gan rai yr ymgynghorwyd â hwy yn statudol , sefydliadau eraill a'r cyhoedd.

9.13 Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad wedi'i baratoi gan Swyddogion, Mae prif ganfyddiadau'r holiadur fel a ganlyn:

- Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd (62%) yn ystyried bod safleoedd gwersylla a charafanio dros dro draweffaith weledol niweidiol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol. (Cwestiwn 1)
- Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r holiadur (60%) yn ystyried bod angen mwy o reolaeth dros ddatblygiadau gwersylla a charafanio. (Ddim o blaid Opsiwn 1)
- Mae cefnogaeth fwyafrifol (61.7%) ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli safleoedd sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd o dan hawliau datblygu 28 diwrnod a ganiateir yn well. (Opsiwn 3 - yr opsiwn dewisol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol)
- Yn ogystal, byddai'r rhan fwyaf o ymatebwyr (59.8%) yn cefnogi'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i gynyddu ymgysylltu gyda gweithredwyr safleoedd gwersylla a charafanio. (Opsiwn 2 - opsiwn dewisol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol)
- O ran rhifau mae yna lefel hafal o wrthwynebiad a chefnogaeth (40.2%) i Erthygl 4 ar gyfer safleoedd sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd gan Sefydliadau Esempt ond gyda mwy o deimlad yn cael ei fynegi ynghylch gwrthwynebu'r cynnig. (Opsiwn 4)
- Mae yna fwy o wrthwynebiad (42%) na chefnogaeth (34.6%) ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Sefydliadau Esempt a 'safleoedd 28 diwrnod' er mwyn dod â'r holl safleoedd sy'n cael eu rhedeg fel datblygiad dan reolaeth a ganiateir. (Opsiwn 5)

9.14 Bydd yr Awdurdod yn symud ymlaen gyda'i opsiynau dewisol fel a ganlyn:

- Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) nad yw’n dod i rym yn syth er mwyn diddymu hawliau datblygu a ganiatawyd ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanio 28 diwrnod.
- Paratoi Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau sydd wedi’u heithrio er mwyn gwella a chynyddu safonau ac arferion gweithio effeithiol.

# Atodiad 1: Ardaloedd Cymeriad Tirwedd – Crynodeb o'r capasiti ar gyfer Datblygiadau Gwersylla, Carafanau a Chabanau Gwyliau Ychwanegol

| Rhif LCA | Enw | Capasiti | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Sgôr cyffredinol | Safleoedd newydd | Estyniadau gyda mwy o letai | Estyniadau heb unrhyw gynnydd o letai | Newid o fewn sefydliadau | Gwelliannau tirlunio / cynllun |
| 1 | Arfordir Sefydlog Saundersfoot | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Dim | Cyfyngedig iawn | Oes | |
| 2 | Dinbych y Pysgod | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Dim | Dim | Oes | |
| 3 | Ynys Bŷr | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Amh | Amh | Amh | |
| 4 | Maenorbŷr/ Freshwater East | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Dim | Dim | Oes | |
| 5 | Ystagbwll | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Dim | Amh | Cyfyngedig | |
| 6 | Castellmartin/ Meysydd Merrion | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Dim | Amh | Cyfyngedig | |
| 7 | Penrhyn Angle | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Dim | Dim | Cyfyngedig | |
| 8 | Freshwater West/ Twyni Brownslade | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Amh | Amh | Amh | |
| 9 | Marloes | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Cyfyngedig iawn | Oes | |
| 10 | Sgomer a Sgogwm | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| 11 | Cyrion Purfa Herbrandston | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Dim | Dim | Cyfyngedig | |
| 12 | Bae Sain Ffraid | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Dim | Oes | |
| 13 | Brandy Brook | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Dim | Dim angen | |
| 14 | Cwm Solfach | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Amh | Amh | Amh | |
| 15 | Comin Dowrog a Chomin Tretio | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Oes | |
| 16 | Carn Llidi | Na/ cyrraedd capasiti | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| 17 | Tyddewi | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Dim | Dim | Cyfyngedig | |
| 18 | Penrhyn Dewi | Na/ cyrraedd capasiti | Cyfyngedig iawn | Dim | Dim | Oes | |
| 19 | Ynys Dewi | Na/ cyrraedd capasiti | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| 20 | Trefin | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Dim | Dim | Oes | |
| 21 | Pen Caer | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Dim | Amh | Oes | |

# Atodiad 1: Ardaloedd Cymeriad Tirwedd – Crynodeb o'r capasiti ar gyfer Datblygiadau Gwersylla, Carafanau a Chabanau Gwyliau Ychwanegol

| Rhif LCA | Enw | Capasiti | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | Mynydd Carningli | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Amh | Amh | Amh | |
| 23 | Trefdraeth | Na/ cyrraedd capasiti | Dim | Dim | Dim | Cyfyngedig | |
| 24 | Penrhyn Dinas | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Dim | Oes | |
| 25 | Penrhyn Cemaes | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Dim | Cyfyngedig | |
| 26 | Cwm Gwaun/Afon Nyfer | Cyfyngedig | Dim | Cyfyngedig | Dim | Cyfyngedig | |
| 27 | Mynydd Preseli | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig | |
| 28 | Daugleddau | Cyfyngedig | Cyfyngedig iawn | Cyfyngedig iawn | Cyfyngedig iawn | Oes | |

*Dyfyniad o'r Canllawiau Cynllunio Atodol – Carafanau a Gwersylla a fabwysiadwyd*

# Atodiad 2: Polisi 41 o'r Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd

**Polisi 41 Datblygu Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau**

**Bydd meysydd Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau newydd, a newidiadau i'r mathau o leiniau mewn meysydd presennol, i ffwrdd o'r arfordir a'r Preseli ac mewn lleoliadau nad ydynt yn rhyngweladwy â nhw, yn cael eu hystyried.**

**Bydd estyniadau i safleoedd presennol yn cael eu hystyried lle bo'r estyniad mewn lleoliad sydd wedi'i cuddio'n dda.**

**Caniateir estyniadau i safleoedd presennol heb unrhyw gynnydd yn nifer y lleiniau i sicrhau gwelliant amgylcheddol clir mewn perthynas â thirlunio a chynlluniau lle mae gan safleoedd presennol rannau amlwg iawn, sy'n aml yn weladwy o'r arfordir a dyfroedd y glannau, a lle mae estyniadau yn caniatáu i leiniau gael eu trosglwyddo i leoliadau mwy synhwyrol.**

**Rhaid i gynigion sy'n dod i law fel y nodir uchod sicrhau bod:**

**a) Datblygiad newydd (gan gynnwys cyfleusterau ategol) a newidiadau o fewn safleoedd yn osgoi lleoliadau sensitif**
**b) Unedau wedi'u lleoli fel y gellir eu cymhathu'n rhwydd i'r dirwedd heb achosi effaith niweidiol annerbyniol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol (gweler Polisi 14).**
**c) Dim effeithiau cronnus niweidiol annerbyniol pan gânt eu hystyried ar y cyd â datblygiadau eraill yn yr ardal (gweler Polisi 14).**
**d) Unrhyw gyfleusterau ategol, lle bynnag y bo'n bosibl, yn cael eu lleoli mewn adeilad presennol neu fel estyniad i'r cyfleusterau presennol. Os nad oes adeilad presennol ar gael, rhaid dangos yr angen am gyfleusterau ychwanegol yn glir ac yn gymesur â maint y datblygiad (gweler hefyd Polisi 42).**
**e) Cyfleoedd gwella yn sicrhau gwelliant amgylcheddol cyffredinol lle mae manteision clir o ran lleihau'r effaith ar dirwedd gyfagos.**

4.212 Mae'r Asesiad Capasiti Tirwedd Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau yn darparu cyngor generig a manwl ar yr hyn a olygir gan dermau fel 'oddi wrth yr arfordir a'r Preseli' a 'lleoliadau sensitif', sut i gymhathu cynigion i'r dirwedd, a sut i liniaru a gwella. Mae'r argymhellion a'r canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer pob ardal o gymeriad tirwedd yn cael blaenoriaeth dros y canllawiau generig ar leoli, lliniaru a gwella a nodir yn Atodiad B i'r Asesiad.

4.213 Yn gyffredinol, mae cyfleoedd ar gyfer safleoedd newydd ac estyniadau i safleoedd presennol ar raddfa fach, sy'n darparu ar gyfer meysydd tymhorol ar gyfer carafanau teithiol neu wersylla. Efallai y bydd nifer fach iawn o gyfleoedd ar gyfer cynigion ar raddfa ganolig. Ni ddaethpwyd o hyd i gyfleoedd ar gyfer meysydd carafanau sefydlog newydd ar raddfa fawr. Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn a olygir gan faint y safle (bach, canolig, mawr), a'r hyn a olygir gan y termau (tymhorol neu sefydlog). Mae'r trothwyon maint yn deillio o asesiad rhagarweiniol o sampl o ddatblygiadau gwahanol yn nhirwedd Sir Benfro gan ystyried, maint a phatrwm tirwedd.

**Tabl 7 Diffiniad o wahanol fathau o ddatblygiad**

| **Math o ddatblygiad a maint y safle** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Sefydlog: mawr | Unedau sefydlog gan gynnwys carafanau, cabanau gwyliau a phodiau/opsiynau glampio â strwythur caled ar safle mwy na 3Ha. |
| Sefydlog: canolig | Unedau sefydlog gan gynnwys carafanau, cabanau gwyliau a phodiau /opsiynau glampio â strwythur caled ar safle >0.5Ha- 3Ha. |
| Sefydlog: bach | Unedau sefydlog gan gynnwys carafanau, cabanau gwyliau a phodiau/opsiynau glampio â strwythur caled ar safle 0- 0.5Ha. |
| Tymhorol: mawr | Unedau tymhorol gan gynnwys carafanau teithiol, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal fel yurts, tipis a phebyll saffari ar safle mwy na 3Ha. |
| Tymhorol: canolig | Unedau tymhorol gan gynnwys carafanau teithiol, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal fel yurts, tipis a phebyll saffari ar safle >0.5Ha- 3Ha. |
| Tymhorol: bach | Unedau tymhorol gan gynnwys carafanau teithiol, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal fel yurts, tipis a phebyll saffari ar safle 0- 0.5Ha. |

4.214 Mae'r diffiniad o unedau teithiol yn cynnwys carafanau teithiol, pebyll, pebyll trelar a charafanau modur, cartrefi modur, cerbydau teithio a cherbydau gwersylla.

4.215 Diffinnir glampio fel math o lety sydd wedi'i godi ymlaen llaw ar y safle a gall gynnwys yurts, tipis, podiau, tai coed a phebyll saffari, er y gellir ei ddarparu gan ystod o strwythurau eraill. Bydd graddfa'r sefydlogrwydd, maint a dyluniad lleoliad yn penderfynu sut mae'r strwythurau hyn yn cael eu hystyried.

4.216 Bydd opsiynau 'glampio' meddal fel yurts, tipis, pebyll saffari a phebyll cloch yn cael eu trin fel unedau teithiol neu ddatblygiad tymhorol, ar yr amod eu bod yn cael eu symud o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a/neu am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac y caniateir i'r glaswellt ar y safle dyfu'n ôl. Lle cynigir seilwaith sefydlog cysylltiedig fel decin, ffensys neu baneli solar, gellir ystyried y pebyll yr un fath â datblygiad carafanau sefydlog. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried fesul achos.

4.217 Gellir ystyried opsiynau 'glampio' caled fel podiau neu bebyll pren neu strwythurau caled eraill yr un fath â charafanau neu lety teithiol neu sefydlog, yn unol â'r diffiniad statudol o garafán yn Atodiad C yr Asesiad Tirwedd Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau. Mae hyn yn dibynnu ar a ellir tynnu'r strwythur oddi ar y safle'n hawdd mewn un darn, a oes ganddo sylfaen goncrit barhaol, a yw wedi'ii gysylltu'n barhaol â chyflenwad trydan neu â

gwasanaethau eraill fel cyfleusterau dŵr a gwaredu gwastraff, neu a oes ganddo strwythurau ategol fel decin, ffensys neu baneli solar sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd y penderfyniad ar ei statws yn cael ei wneud fesul achos.

4.218 Dylid symud unedau teithiol o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Dylai cyfleusterau storio ar gyfer unedau teithiol fod mewn adeiladau addas sy'n bodoli eisoes neu, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, mewn safleoedd anymwthiol sydd wedi'u cuddio'n dda, ac nad ydynt yn weladwy o ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd ar y tir neu'r môr.

4.219 Effeithiau cronnus: Wrth ystyried effeithiau cronnus, egwyddor allweddol i'w defnyddio yw, os yw math penodol o ddatblygiad ar raddfa benodol yn dderbyniol mewn ardal gymeriad tirwedd benodol, nid yw hyn yn golygu, os caiff ei weithredu, y byddai'n briodol neu'n dderbyniol cynyddu maint y safle neu ddwysáu'r defnydd ohono yn y dyfodol. Byddai sensitifrwydd Ardal Cymeriad Tirwedd yn debygol o aros yr un fath, a gallai'r capasiti leihau er mwyn diogelu a bodloni rhinweddau a dibenion arbennig y Parc Cenedlaethol.

4.220 Amodau: Bydd amod i sicrhau bod llety gwyliau yn cael ei ddefnyddio at ddefnydd gwyliau, ac na fydd yn cael ei feddiannu fel unig breswylfa neu brif breswylfa person, yn cael ei gynnwys ar unrhyw ganiatâd a roddir. Fel arfer, caniateir i leiniau neu safleoedd tymhorol weithredu o ddechrau mis Mai tan ddiwedd mis Medi.

4.221 Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys carafanau a gwersylla a ganiateir gan y 'rheol 28 diwrnod' a safleoedd a weithredir o dan Dystysgrifau a roddwyd gan Sefydliadau Eithriedig.

# Atodiad 3: Manteision ac Anfanteision Meysydd Carafanau a Gwersylla a sefydlir trwy hawliau datblygu a ganiateir

## Carafanio a Gwersylla yn y Parc Cenedlaethol – Datblygiad a ganiateir [5] - Manteision[6] ac Anfanteision [7]

Nodyn: Bydd safleoedd unigol yn arddangos y manteision a'r anfanteision hyn i raddau amrywiol

| | **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| **Economaidd** | • Cynhyrchu incwm a gwariant yn yr ardal leol.[8]<br>• Creu cyflogaeth<br>• Cymeriant tir dros dro. Tir ymylol a ddefnyddir. Mae safleoedd sydd wedi'u heithrio yn tueddu i fod ar raddfa fach.[9]<br>• Gall ffermwyr arallgyfeirio.<br>• Gallu gweithredu nawr. | • 'Annhegwch' i gystadleuwyr<br>• Gellir effeithio ar ansawdd tir amaethyddol<br>• Tir yn cael ei dynnu'n ôl o ddefnydd amaethyddol dros dro |
| **Ymwelwyr** | • Cynyddu cyfleoedd iechyd a llesiant.<br>• Mwy o ddewis o leoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden.<br>• Mwy o botensial o ran mynediad i hanes/ diwylliant lleol.<br>• Mae safleoedd llai yn tueddu i fod yn gyfeillgar ar raddfa fach.<br>• Mae safleoedd llai yn tueddu i fod yn dawelach a denu grwpiau, neu gellir rheoli pwy sy'n archebu lle yn hawdd. | • Efallai na fydd mynediad i'r Parc Cenedlaethol yn y 'lle iawn'.<br>• Rhai mannau problemus – gormod o bobl yn ymweld â nhw.<br>• Amwynder cymdogion. Sŵn. Golau. Oriau anghymdeithasol<br>• Posibilrwydd o wrthdaro gydag ymwelwyr a chymunedau eraill.<br>• Diogelwch ymwelwyr yn bryder.[10] |

---

[5] **Graddfa:** Mae'r Safle Ardystiedig cyfartalog yn cynnwys 12 llain ar sail ffigurau PCNPA (a'r Clwb Gwersylla Gwyrddach, sef 11 llain). Tra mae gan safleoedd 28 diwrnod a safleoedd heb eu rheoleiddio niferoedd diderfyn o leiniau unigol. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer maint yr effeithiau posibl a ddangosir yn y tabl isod.

[6] Yn cynnwys canfyddiadau [The Outjoyment Report - The Camping and Caravanning Club]

[7] Sylwadau **cynghorol** yn unig gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar Safleoedd Eithriedig. Dim cyfle i wneud sylwadau ar safleoedd 28 diwrnod.

[8] Mae incwm a gynhyrchir gan Safleoedd Gwersylla yn pwysoli mwy i **ymdrechion marchnata a gwefan y gwersyll ei hun**, felly mae Asiantau Teithio Ar-lein corfforaethol mawr yn gyffredinol yn cael llai o gyfran o'i gymharu â safleoedd 28 diwrnod sy'n defnyddi'r Asiantau hyn, sy'n tynnu hyd at 20% o refeniw o'r safleoedd dros dro hyn yn y sir. Yn y bôn, mae gan safle dros dro lai o werth i'r economi leol na safle sefydledig a dibynadwy.

[9] Mae'r Safle Ardystiedig cyfartalog yn cynnwys 12 llain ar sail ffigurau PCNPA (a'r Clwb Gwersylla Gwyrddach, sef 11 llain). Tra mae gan safleoedd 28 diwrnod a safleoedd heb eu rheoleiddio niferoedd diderfyn o leiniau, ac nid ydynt yn destun asesiad o addasrwydd lleoliad.

[10] **Diogelwch ymwelwyr:** Mae Hawliau Datblygu a Ganiateir yn rhoi pobl mewn gwahanol leoliadau ar gyfer hamdden nag y byddent yn mynd yn gyffredinol. Rheolir hamdden trwy bwyntiau mynediad hysbys, e.e. meysydd parcio. Efallai na fydd ymwelwyr ag ardaloedd mwy anghysbell yn elwa o gyngor neu arwyddion ynglŷn â diogelwch traethau, er enghraifft, diogelwch ar y traeth, neu deithio ar dir anodd i gael mynediad i'r traeth.

| | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| | | • Gwrthdaro rhwng ymwelwyr ar yr un safle weithiau |
| **Amgylchedd** | • Cynyddu mynediad i'r Parc Cenedlaethol.<br>• Cysylltu â byd natur. [11]<br>• Cysylltu â chyfleoedd tirwedd.<br>• Cysylltu â chyfleoedd amgylchedd hanesyddol.<br>• Neilltuo cyfle. [12] | • Cywasgu / erydu tir yn bosibl<br>• Efallai yr effeithir ar ansawdd dŵr – Ffosffadau.<br>• Gellir effeithio ar Barthau Llifogydd a gwneud difrod i offer safle o ganlyniad i lifogydd.<br>• Effeithiau ar y dirwedd. Rhinweddau arbennig[13] Awyr y Nos.<br>• Effeithio ar ecoleg[14].<br>• Efallai yr effeithir ar archeoleg.<br>• Cysylltiad dŵr[15]<br>• Effeithiau cronnus safleoedd gwersylla mewn un lleoliad<br>• Capasiti Carthffosiaeth<br>• Mae gwaredu carthion yn broblem posibl.[16]<br>• Cyflenwad dŵr[17]<br>• Halogi dŵr[18] |
| **Traffig** | | • Gall arwain at rwystrau.<br>• Cerbydau sydd yn anaddas ar gyfer ffyrdd bach.<br>• Colli cyfleoedd i leoli mewn mannau mwy hygyrch o bosib.<br>• Mwy tebygol o ddibynnu ar geir preifat mewn lleoliadau anghysbell. |

[11] Safle gweithredu blynyddol yn creu cyfle i **gynllunio ar gyfer yr amgylchedd**. Mae safleoedd dros dro yn creu agweddau dros dro tuag at y ffactor pwysig hwn. Mae angen ystyried natur fel budd masnachol, nid colled amaethyddol yn unig.

[12] Er enghraifft, mae cynigion drafft yn disgwyl i ffermwyr blannu coed ar 10% o'u tir. Mae gwersylloedd yn yr ardaloedd hyn yn **gyfle perffaith i weithio mewn partneriaeth**.

[13] **Rhinweddau arbennig:** Ysblander yr Arfordir, Daeareg Amrywiol, Tirwedd amrywiol, cymeriad anheddiad nodedig, amgylchedd hanesyddol cyfoethog, treftadaeth ddiwylliannol, cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth, Ynysoedd, Hygyrchedd, Lle i anadlu, Anghysbell, llonyddwch ac ardal wyllt, Amrywiaeth profiadau a chyfuniad o rinweddau unigol.

[14] Agosrwydd at **gynefinoedd a rhywogaethau**. Os oes mwy o ardaloedd anghysbell yn cael eu cyrchu a phobl yn gwersylla dros nos ynddynt yn hytrach na phasio drwodd, yna mae mwy o botensial i aflonyddu. Er enghraifft, amharu ar y boblogaeth morloi bach.

[15] **Cysylltiad dŵr**, darpariaeth dŵr ar y safleoedd. Mae rhai pobl yn ystyried darparu tyllau turio. Dylai hyn gael ei ddal gan y rheoliadau cyflenwadau dŵr preifat. Mae yna hefyd reolau ar gygfer gosodiadau a ffitiadau. Efallai na fydd safleoedd / pibellau yn cael eu profi. Mae halogi dŵr yn bryder difrifol.

[16] **Carthion:** Lle mae'r carthion yn mynd? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi bod llawer o ddraenio preifat (e.e., tanciau septig a gweithfeydd trin pecynnau sydd heb eu rheoleiddio gan fod pobl ddim yn gwybod bod angen mynd at CNC am eithriad neu drwydded.

[17] **Cyflenwad dŵr:** Gyda'r cynnydd yn y boblogaeth yn ystod yr haf, sut mae'r cyflenwad dŵr yn cael ei fonitro ar gyfer safleoedd sydd heb eu rheoleiddio.

[18] **Darpariaeth dŵr** i dybiau twym hefyd yn achosi pryder. Peryglon posibl i iechyd yr amgylchedd. Achosion posibl o E-Coli.